

Canllaw defnyddiol i gwsmeriaid

# Cysylltu eich Technoleg Carbon Isel



# Cysylltu eich technoleg carbon isel

Bydd y daflen hon yn rhoi rhagor o wybodaeth a chynngor i chi ar sut i gael cysylltiad carbon isel newydd yn eich eiddo. Gallai hyn gynnwys cysylltu technoleg newydd fel cerbyd trydan (EV) neu bwmp gwres.

## Pwy ydyn ni

Yma yn SP Energy Networks, rydyn ni'n gweithredu ac yn berchen ar y rhwydwaith trawsyrru a dosbarthu trydan yng Nghanolbarth a De'r Alban, Glannau Mersi, Swydd Gaer, Gogledd Cymru a Gogledd Swydd Amwythig. Rydyn ni'n gwneud hyn drwy'r rhwydwaith o linellau uwchben a cheblau o dan y ddaear sy'n eiddo i ni ac yn cael eu cynnal a'u cadw gennym.

Does dim ots i bwy rydych chi'n talu eich bil trydan, ni yw'r bobl y dylech gysylltu â nhw os oes gennych chi doriad trydan, os oes angen uwchraddio eich cysylltiad trydan neu os oes angen un newydd arnoch, neu os ydych chi'n canfod problem gyda'n hoffer.

I gael rhagor o wybodaeth am bwy ydyn ni a beth rydyn ni'n ei wneud, ewch i'n gwefan yn [spenergynetworks.co.uk](http://spenergynetworks.co.uk), neu gallwch ddod o hyd i'n manylion cyswllt ar gefn y daflen hon.

# Rydyn ni yma i helpu

Mae'n bosibl eich bod chi wedi prynu cerbyd trydan neu bwmp gwres yn ddiweddar – a elwir hefyd yn dechnoleg carbon isel (LCT). Diolch yn fawr am chwarae eich rhan yn y gwaith o gefnogi dyfodol Sero Net.

## Cysylltu eich technoleg carbon isel


Os oes gwaith wedi'i wneud yn eich eiddo er mwyn gosod LCT newydd, efallai y bydd angen i ni wneud gwaith moderneiddio er mwyn i chi allu cysylltu â'n rhwydwaith trydan yn ddiogel. Bwriad unrhyw waith gofynnol yw sicrhau bod ein rhwydwaith yn barod i gefnogi'r broses o drawsnewid i Sero Net, ac i sicrhau bod y pŵer yn parhau i lifo i gartrefi a busnesau.

## Beth fydd hyn yn ei olygu i chi?

Er mwyn gwneud yn siŵr eich bod yn gallu cysylltu â'r rhwydwaith yn ddiogel, bydd ein tîm asesu ymroddedig yn cynnal adolygiad ar eich cyflenwad o'r swyddfa. Fodd bynnag, efallai y bydd angen i un o'n Partneriaid Gwasanaeth ymweld â'ch eiddo er mwyn asesu a yw'n ddiogel cysylltu, neu a oes angen gwneud gwaith er mwyn moderneiddio'r rhwydwaith. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud yn rhad ac am ddim, a byddwn yn gweithio gyda'ch gosodwr i wneud y broses mor syml â phosibl.

# Trosolwg o'r broses

Er mwyn egluro'r broses hon yn fanylach, rydyn ni wedi creu siart llif syml o'r hyn a allai fod yn gysylltiedig â'r camau allweddol sydd angen eu cymryd.





## Gwaith uwchraddio posibl i foderneiddio

Os yw ein tîm asesu wedi penderfynu nad yw cyflenwad y rhwydwaith yn bodloni'r gofynion sylfaenol, byddwn yn rhoi gwybod i'ch gosodwr ac yn cysylltu â chi i roi gwybod y bydd angen gwneud rhagor o waith er mwyn moderneiddio'r rhwydwaith yn eich cartref, ac o'i gwmpas. Rhaid gwneud y gwaith hwn cyn y gallwch chi ddechrau defnyddio eich man gwefru neu'ch pwmp gwres, a hynny er mwyn gwneud yn siŵr y gellir eu defnyddio'n ddiogel ac yn ddibynadwy.

### Beth yw 'gwaith moderneiddio rhwydweithiau' a beth mae'n ei olygu?

Mae'r gwaith o foderneiddio rhwydweithiau yn canolbwyntio ar uwchraddio rhannau o'n rhwydwaith dosbarthu trydan er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn gallu delio ag unrhyw gapasiti neu 'lwyth' ychwanegol. Wrth i dechnoleg newydd gael ei chyflwyno i'r farchnad, fel cerbydau trydan a phympiau gwres, mae'r galw am bŵer wedi cynyddu. Drwy uwchraddio rhannau o'n rhwydwaith, gallwn ddarparu mwy o bŵer i'ch cartref neu'ch busnes er mwyn cefnogi eich technoleg carbon isel newydd.

Bydd Partner Gwasanaeth enwebedig SP Energy Networks yn ceisio cynnal arolwg o'ch eiddo cyn pen 90 diwrnod ar ôl i ffurflen gais y Gymdeithas Rhwydweithiau Ynni ddod i law.

Unwaith y bydd yr arolwg wedi'i gwblhau, byddwn yn cysylltu â chi i drafod y ffordd fwyaf effeithlon o wneud y gwaith hwn yn gyflym ac yn ddiogel, a byddwn yn cytuno ar amserlen addas gyda chi ac unrhyw eiddo arall yr effeithir arno.

### Mae gwahanol fathau o waith y gallai fod angen i ni ei wneud er mwyn moderneiddio rhwydwaith:

1

**Uwchraddio ffiws trydan** – mae ffiwsiau trydanol 30 neu 60amp yn gyffredin iawn mewn eiddo hŷn. Gallwn uwchraddio eich ffiws presennol i faint mwy (80m) er mwyn helpu i ddelio â'r llwyth ychwanegol.

2

**Gosod ffiws datgysylltu** – a elwir hefyd yn "service head" yn Saesneg, a bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud y tu mewn i'ch eiddo wrth ymyl eich mesurydd trydan.

3

**Uwchraddio'r gwasanaeth** – mae hyn yn cynnwys popeth ym mhwynt 2, yn ogystal â newid cebl y tu allan i'ch tŷ – gallai'r cebl hwn fod o dan eich dreif neu eich gardd. Byddwn bob amser yn ceisio sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl, ac adfer yr eiddo i'r un cyflwr ag yr oedd ynddo cyn y gwaith.

4

**Datgysylltu ceblau gwasanaeth o dai cyfagos sy'n rhannu'r un cysylltiad** – mae hyn yn cynnwys gwneud gwaith helaeth i foderneiddio'r rhwydwaith, gan gynnwys gwaith cloddio ar raddfa fawr. Bydd hyn yn darparu cyflenwadau unigol i chi ac i eiddo cyfagos drwy ddatgysylltu unrhyw gysylltiadau rydych chi'n eu rhannu. Efallai y bydd angen i ni hefyd gael trwydded gan yr awdurdod lleol i ganiatáu i ni wneud gwaith ar y ffordd neu'r llwybr. Byddant yn nodi amserlenni ar gyfer pryd y gall y gwaith hwn gael ei wneud, a gall hyn ein hatal ni rhag dechrau gweithio am hyd at 90 diwrnod. Ar y diwrnod, bydd angen i ni hefyd gael mynediad i'r holl eiddo cyfagos sy'n rhannu'r un cysylltiad.

Amser yn yr eiddo

Hyd at hanner diwrnod\*\*

Hyd at un diwrnod\*\*

Hyd at dri diwrnod\*\*

5-10 diwrnod\*\*

\*\*Amserlenni dangosol ar gyfer eiddo safonol yw'r rhain, a gallant amrywio yn dibynnu ar y math o eiddo rydych chi'n byw ynddo.

Bydd SP Energy Networks yn rhoi pwynt cyswllt penodol i chi, a fydd ar gael drwy gydol y broses ac a fydd yn gallu ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych chi. Ar ôl i'r asesiad ffisegol gael ei gynnal gan ein Partner Gwasanaeth, bydd dyluniad arfaethedig yn cael ei greu – fel arfer, bydd hyn yn cael ei wneud cyn pen 10 diwrnod ar ôl yr arolwg.

Bydd Partner Gwasanaeth enwebedig SP Energy Networks yn cysylltu â chi (ac unrhyw gymdogion yr effeithir arnynt) er mwyn cytuno ar ddyddiad addas i gwblhau'r gwaith.



## Cwestiynau Cyffredin

Dyma rai o'r cwestiynau  
cyffredin a ofynnir



**C** Rydw i wedi bod yn defnyddio fy mhwmw gwres/man gwefru heb unrhyw broblemau, felly pam mae angen gwneud gwaith nawr?

**A** Mae angen i ni gynnal adolygiad o'ch eiddo i wneud yn siŵr bod y cyflenwad yn gallu rheoli unrhyw lwyth ychwanegol, fel eich bod chi'n gallu parhau i ddefnyddio eich LCT yn ddiogel ac yn effeithlon. Mae hyn hefyd yn caniatáu i ni gydbwysu'r llwyth trydan sydd ei angen arnoch chi a'ch cymdogion, a chefnogi technolegau carbon isel sy'n cael eu mabwysiadu.

**C** Oes angen i mi fod yn bresennol pan fydd y peiriannydd yn dod draw?

**A** Oes, byddwn yn gofyn i chi ac unrhyw gymdogion yr effeithir arnynt fod yn bresennol er mwyn gallu cael mynediad i'ch eiddo ac i allu gwneud y gwaith sydd ei angen.

**C** A fyddwch chi'n codi tâl arnaf os bydd angen gwneud gwaith moderneiddio?

**A** Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud yn rhad ac am ddim, ac ni fydd dim yn ddyledus gennych chi na'r gosodwr. Mae'r offer sydd ei angen arnom i wneud y gwaith uwchraddio yn rhan o'n rhwydwaith sy'n cael ei gynnal a'i gadw gennym i gyflenwi'r cyflenwad trydan i'ch cartref.

**C** Beth yw ffurflen y Gymdeithas Rhwydweithiau Ynni?

**A** Ffurflen diwydiant safonol yw ffurflen y Gymdeithas Rhwydweithiau Ynni, sy'n cael ei defnyddio pan fydd manau gwefru neu bympiau gwres yn cael eu gosod mewn adeiladau sydd eisoes â chysylltiad trydan drwy Weithredwr Rhwydwaith Dosbarthu. Dylid adolygu'r ffurflen hon bob amser cyn gosod unrhyw bwynt gwefru neu bwmp gwres newydd, a hynny er mwyn penderfynu a oes angen gwneud cais cyn gosod, neu a yw'n gymwys ar gyfer y broses hysbysu.

**C** Pa effaith y gallai'r gwaith gael ar fy eiddo?

**A** Mae hyn yn dibynnu ar y math o waith y mae angen i ni ei wneud. Gallai hyn gynnwys rhywfaint o waith y tu mewn i'ch eiddo, neu gloddio eich gardd neu'ch dreif. Pan fydd unrhyw waith yn cael ei wneud, byddwn bob amser yn ceisio sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl, yn ogystal ag adfer yr eiddo i'r un cyflwr ag yr oedd ynddo cyn y gwaith. Byddwn yn sicrhau ein bod yn trafod hyn gyda chi pan fyddwn yn cynnal yr arolwg yn eich eiddo.

Cysylltwch â ni:

**SP Energy Networks**

Canolbarth a De'r Alban

[lctapplicationnorth@spenergynetworks.co.uk](mailto:lctapplicationnorth@spenergynetworks.co.uk)

Glannau Mersi, Swydd Gaer,

Gogledd Cymru a Gogledd Swydd Amwythig

[lctapplicationsouth@spenergynetworks.co.uk](mailto:lctapplicationsouth@spenergynetworks.co.uk)

